# TGAU CYNLLUNIAU MARCIO

**CYMRAEG IAITH GYNTAF**
**HAEN SYLFAENOL**

**TACHWEDD 2011**

RHAGARWEINIAD

Y cynlluniau marcio a ganlyn yw'r rhai a ddefnyddiwyd gan CBAC ar gyfer arholiad Tachwedd 2011 TGAU CYMRAEG IAITH GYNTAF HAEN SYLFAENOL. Penderfynwyd arnynt yn derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y cynadleddau yn fuan ar ôl sefyll y papurau fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y cynadleddau oedd sicrhau bod y cynlluniau marcio wedi'u dehongli a'u cymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynlluniau marcio hyn.

**ADRAN A**

**C.1** (i) Dau farc am nodi:

- Ysbryd yr Ŵyl / Gŵyl Cyfryngau Celtaidd 2011 [2]

(ii) Un marc yr un hyd at ddau farc am nodi:

- Marathon (y Jyngl)
- Ras 6637 Ultra [2]

(iii) Un marc am nodi:

- 7 diwrnod [1]

(iv) Un marc am nodi:

- 12 [1]

(v) Un marc yr un hyd at ddau farc am nodi

:

- 350 milltir
- 8 diwrnod [2]

(vi) Un marc am nodi:

- Shelter Cymru [2]

**Cyfanswm marciau cwestiwn 1 = 10 marc**

**C.2** 2 farc am bob ffaith hyd at 28 marc 28 marc

Disgwylir ffeithiau o'r darnau yn unig, a disgwylir rhai ffeithiau o'r tair adran, ond ni chyfyngir y marciau i'r adrannau yn benodol. Ni wobrwyir yr un ffaith fwy nag unwaith. Cosbir os na cheir ffeithiau o'r tair adran.
Os atebir ar un adran yn unig 24 marc yn unig.
Os atebir ar ddwy adran yn unig 26 marc yn unig.

| | **Darn darllen 1: Lowri Morgan yn Ennill y Ras**<br>(2 farc am bob ffaith) | **Darn darllen 2: Yr Unig Un i Goncro'r Arctig.**<br>(2 farc am bob ffaith) |
|---|---|---|
| **Cefndir - pwy ydy hi a beth a wnaeth hi**<br><br>**[2 c]** | • Lowri Morgan – athletwraig a chyflwynwriag<br>• 35 oed<br>• byw yng Nghaerdydd<br>• yn wreiddiol o Abertawe<br>• rhedeg *Marathon y Jyngl* – ras anodda'r byd<br>• rhedeg y ras 222 cilomedr mewn 7 diwrnod<br>• rhedeg ras arall - ras *6633 Ultra* yn yr Arctig<br>• cynhyrchu rhaglenni teledu | • Lowri Morgan – cyflwynydd teledu<br>• ras *6633 Ultra*<br>• gorffen ras eithafol 350 milltir ar draws yr Arctig<br>• 12 o athletwyr wedi dechrau'r ras<br>• Lowri oedd yr unig un i lwyddo i orffen<br>• gweddill yn gorffen ar ôl 120 milltir<br>• 6ed i lwyddo erioed/ 6ed person yn y byd i gwblhau ras *6633 Ultra*<br>• ras 350 milltir – 8 diwrnod<br>• 18 mis ers iddi redeg ras *Marathon y Jyngl*<br>• daeth yn 3ydd ymhlith y merched + yn y 10 uchaf o bawb yn ras *Marathon y Jyngl*<br>• gŵr a theulu |
| **Y profiadau a gafodd yn ystod y ddwy ras**<br><br>**[2 p]** | • gwres crasboeth ac amgylchiadau anodd jyngl yr Amazon<br>• gwthio ffiniau corff a meddwl i'r eithaf... | • ar ei phen ei hun am y 3 diwrnod olaf<br>• brifo'n gorfforol, meddyliol ac emosiynol<br>• sialens fwyaf erioed<br>• byw'n gwbl hunan gynhaliol<br>• tynnu sled yn llawn offer a bwyd<br>• cwblhau mewn 174 awr ac 8 munud<br>• ymdopi ag effeithiau diffyg cwsg – 15 awr o gwsg dros yr 8 diwrnod<br>• wedi mwynhau er maint y sialens<br>• 'un o brofiadau mwya' anghredadwy ac anhygoel fy mywyd'<br>• y ras honno oedd ras anodda ei bywyd<br>• lleithder a thymheredd crasboeth y jyngl<br>• balch o gyrraedd adref |
| **Y gyfres deledu 'Ras yn Erbyn Amser; a'r wobr a enillodd**<br><br>**[2 t]** | • ennill gwobr Ysbryd yr Ŵyl/ Stornoway<br>• Gŵyl Cyfryngau Celtaidd 2011<br>• camerâu cwmni *P.O.P. 1* yn dilyn y ddwy ras – dangos ar S4C<br>• ail gyfres o *Ras yn erbyn amser* ar S4C (newydd ddod i ben)<br>• braint ac anrhydedd i dderbyn y wobr + cael rhedeg y ddwy ras<br>• yn ddiolchgar am y wobr<br>• cyfres yn cael ei darlledu<br>• gwobr yn cael ei roi i raglen deledu neu ffilm sydd mewn iaith Geltaidd | • camerâu'r gyfres *Ras yn Erbyn Amser* yn dilyn pob cam o'r daith<br>• darlledwyd y rhaglen olaf ar S4C nos Iau, Ebrill 14 am 8.30 p.m.<br>• ymgyrch ei hun – codi arian at elusen *Shelter Cymru* |

2 farc am ymwybyddiaeth o ffurf deialog.
**Cyfanswm marciau cwestiwn 2 = 30 marc**

**C.3** 9 marc am Gynnwys, 6 am Ffurf, Iaith, Arddull a Disgrifiadau + 2 farc am gymharu bwriadol + 3 marc am ddyfyniadau pwrpasol. Sylwadau cytbwys tebyg i'r canlynol:

**Cynnwys**: Disgwylir iddynt sôn am 3 pheth o ddarn darllen 2 a 3 pheth o ddarn darllen 3; rhoddir 1 ½ marc am bob sylw cywir.

**Arddull**: Disgwylir iddynt sôn am 2 nodwedd arddull yn narn darllen 2 a 2 nodwedd arddull yn narn darllen 3 – rhoddir 1 ½ yr un.

Rhoddir 2 farc am gymharu bwriadol – un o bob adran – marc yr un.

Rhoddir 3 marc am ddyfyniadau o'r ddau ddarn, 1 o bob adran ac un arall.
Cofier hefyd fod angen i'r dyfynnu ddigwydd wrth ateb y ddwy adran.
Rhaid i'r dyfyniadau gael eu gosod yn glir.

| | **Darn Darllen 2 –** Y**r Unig Un i Goncro'r Arctig.** | **Darn Darllen 3 – Ar Fôr Tymhestlog** | |
|---|---|---|---|
| 4 ½ Marc<br><br>**1 ½**<br>H [i] | (i) **Cynnwys** (4 ½ marc – 1 ½ marc yr un am bob pwynt)<br><br>*Tebyg*:<br>• Y pwnc - ras<br>• sialens i'r cymeriad<br>• wedi cwblhau'r ras yn llwyddiannus<br>• ymhlith y sialensau anoddaf ar y blaned<br>• casglu arian at elusen *Shelter Cymru*<br>• rhannau personol – balch o gyrraedd adre a gweld ei gŵr a'i theulu<br>• brifo'n gorfforol ac emosiynol<br><br>*Gwahanol*:<br>• ras ar dir<br>• hanes am Lowri yn rhedeg y ras yn cael ei adrodd gan rywun arall (ar wahân i'r dyfyniadau)<br>• camerâu teledu yn ei dilyn/ rhaglen deledu<br>• y rhaglen deledu yn ennill gwobr Gŵyl Cyfryngau Celtaidd 2011<br>• Lowri ar ei phen ei hun | (i) **Cynnwys** (4 ½ marc – 1 ½ marc yr un am bob pwynt)<br><br>*Tebyg*:<br>• Y pwnc – ras<br>• sialens i'r cymeriad – wynebu her<br>• wedi cwblhau'r ras yn llwyddiannus<br>• *The World's Toughest Rowing Race*<br>• casglu arian at elusen ymchwil metabolig yn Ysbyty Plant Great Ormond Street<br>• personol – gweld ei thad, mam a Gles ar ddiwedd y ras<br>• brifo'n gorfforol ac emosiynol<br><br>*Gwahanol*:<br>• ras ar y môr<br>• Elin ei hun yn disgrifio'r ras a'i phrofiadau<br>• ei hanes mewn llyfr<br>• Herdip gydag Elin | 4 ½ marc<br><br>**1 ½**<br>G [i] |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3 marc | (ii) **Ffurf, Iaith, Arddull a Disgrifiadau** (3 marc – 1 ½ marc yr un am bob pwynt)<br><br>*Gwahanol:*<br>**Ffurf:** Darn oddi ar safle gwe BBC Cymru'r Byd – adroddiad am lwyddiant Lowri Morgan | (ii) **Ffurf, Iaith, Arddull a Disgrifiadau** (3 marc – 1 ½ marc yr un am bob pwynt)<br><br>*Gwahanol:*<br>**Ffurf**: Rhannau o lyfr – hanes personol (a'i llwyddiant) – ei geiriau ei hun | 3 marc |
| **1 ½**<br>H [ii] | **Iaith ac Arddull a Disgrifiadau** | **Iaith ac Arddull a Disgrifiadau** | **1 ½**<br>G[ii] |
| | **Y math o iaith**<br>• ffurfiol, safonol<br>• ffeithiol<br>• iaith lafar safonol yn y dyfyniadau<br>• uniongyrchol – adrodd yr hanes | **Y math o iaith**<br>• anffurfiol, naturiol<br>• iaith lafar safonol<br>• disgrifiadol/ personol – disgrifio digwyddiadau + teimladau | |
| | **Nodweddion arddull a disgrifiadau**<br><u>Berfau</u><br>• berfau amser gorffennol yn y naratif – *dywedodd, bu...*<br>• berfau yn rhai o'r dyfyniadau – *dw i'n edrych*...; *mae'n elusen*..<br>• berfau amhersonol – *dywedir*<br>• trydydd person | **Nodweddion arddull a disgrifiadau**<br><u>Berfau amrywiol</u>:<br>• berfau amser gorffennol wrth sôn am y llyfr a'r wobr ac wrth iddi hi adrodd yr hanes – *daeth ton*, *cymysgodd*...<br>• berfau cryno – *clywn, gwelwn*<br>• berfau amhersonol yn y cyflwyniad – *cyhoeddwyd, gwobrwyir*<br>• person cyntaf | |
| | <u>Rhifau</u> – *350 milltir, 12 o athletwyr, 1120 milltir, 15 awr o gwsg, 18 mis, Ebrill 14 am 8.30 pm.* | <u>Rhifau</u> e.e. *77 diwrnod 7 awr a 37 munud; 2 o ferched; casglu £190,000; gwobr o £10,000* | |
| | <u>Ansoddeiriau</u> e.e *crasboeth, anoddaf, anghredadwy, anhygoel* | <u>Ansoddeiriau</u> e.e. *dudew, hallt, chwerw, gwallgof, tymhestlog, stormus, didrugaredd; lliwiau – fflachiadau coch, gwyn ac oren* | |
| | <u>Idiomau</u> e.e. *wrth fy modd; rhoi'r gorau iddi; dilyn pob cam..* | <u>Idiomau</u> e.e. *yn wlyb domen; tywyllwch dudew; torrodd y wawr; ras yn erbyn y cloc; llosgi i'r byw; gyrru ias i lawr fy nghefn; dal ar dir y byw* | |
| | | <u>Trosiadau</u> e.e. *tonnau'n carlamu, llaw ddur ofn* | |
| | <u>Enwi</u> e.e. Lowri Morgan, enw'r ddwy ras, enw'r gyfres – Ras yn Erbyn Amser, enw'r elusen *Shelter Cymru* | <u>Enwi</u> – e.e. Elin Haf, Gles, Herdip; enw'r elusen – Ymchwil metabolig Ysbyty Great Ormond Street; *Dream Maker*; Cefnfor Iwerydd; trefnwyr *Woodvale Challenge*; Cymru; Cymraeg; Saesneg | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Dyfynnu – gweler nifer o ddyfyniadau – beth mae Lowri ei hun yn ei ddweud am y ras.<br><br>Hyd brawddegau<br>• brawddegau hirion gan fwyaf<br><br>Rhestru – yn gorfforol, yn feddyliol, ac yn emosiynol | Cyffelybiaeth/ cymhariaeth e.e. *edrych fel cardotwyr*<br><br>cyferbyniad e.e. *cysur digon chwerw; breuddwyd / hunllef*<br><br>Dyfynnu: *The World's Toughest Rowing Race.*<br><br>Hyd brawddegau<br>• brawddegau hirion, aml-gymalog wrth ddisgrifio digwyddiadau<br>• brawddegau byrion i greu effaith/ cyfleu teimladau (e.e. *Roedd hyn yn wallgof. Gwireddu breuddwyd? Roedd hyn yn mynd i fod yn hunllef*.)<br><br>Cwestiynau + cwestiynau rhethregol: e.e. *beth wnaeth ...? Gwireddu breuddwyd? Pam nad oedd yna leuad llawn....?* | |

Disgwylir termau ac enghreifftiau neu gyfeirio'n benodol at sut y mae'r arddull yn darlunio'r sefyllfa i ennill y marciau.

**Cyfanswm marciau cwestiwn 3: 20**

**Marc Iaith Adran A: 20**

Gweler disgrifiadau gradd Iaith a Mynegiant Cwestiwn 4 ar gyfer dyfarnu marc iaith Adran A.

**ADRAN B**

**C.4** Gweler disgrifiadau gradd Cynnwys a Iaith a Mynegiant.
Hyd: ½ - ¾ tudalen yn unig – nid yw hwn yn waith cyflawn – adlewyrchir hyn yn y marc a roddir am gynnwys yn y disgrifiadau gradd.
Ffurf cwbl anghywir: haneru marc Iaith a Mynegiant
Camddehongli'r testun: haneru marc y cynnwys

## Marciau yn ôl disgrifiadau gradd

| Gradd | MYNEGI BARN 20 | CREADIGOL 20 | IAITH A MYNEGIANT 20 | Marc 20 |
|---|---|---|---|---|
| **C** **36-40** | • trafod y testun gyda pheth manylder gan fynegi barn yn gyson a chyflwyno tystiolaeth<br>• datblygu rhai pwyntiau<br>• ystyried safbwyntiau eraill | • gwaith eithaf diddorol<br>• ymwybyddiaeth o rai elfennau i greu effaith<br>• gwaith pur drefnus | • adnoddau iaith pur dda<br>• arddangos gafael dda ar gystrawen<br>• arddangos gafael dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael dda ar eirfa<br>• adnabyddiaeth eithaf da o ffurf | **18-20** |
| **D** **28-35** | • trafod y testun gan fynegi barn yn weddol gyson a chyflwyno peth tystiolaeth<br>• rhoi rhai rhesymau dangos peth ymdrech i ddatblygu pwyntiau<br>• dangos peth ymwybyddiaeth o wahanol safbwyntiau | • gwaith ag ambell gyffyrddiad diddorol<br>• peth ymdrech i ddefnyddio arddull ddiddorol<br>• ymdrech at fod yn drefnus | • adnoddau iaith lled foddhaol<br>• gafael weddol dda ar gystrawen<br>• gafael weddol dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael eithaf da ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth eitha da o ffurf | **14-17** |
| **E** **22-27** | • trafod y testun gan fynegi peth barn<br>• cyflwyno ambell reswm | • ymdrech at waith diddorol<br>• ymdrech at waith cyflawn | • peth gafael ar gystrawen<br>• dangos y gallu i sillafu, treiglo, atalnodi a pharagraffu<br>• defnyddio rhai terfyniadau berfau'n gywir<br>• arddangos peth gafael ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth fras o ffurf | **11-13** |
| **F** **14-21** | • trafod y testun gan fynegi barn yn fyr ac yn syml<br>• dangos peth gallu i roi rhesymau | • ymdrech i gyflwyno manylion<br>• ymgais at drefn a dilyniant | • defnyddio geirfa a chystrawennau elfennol<br>• ymgais i baragraffu ac atalnodi<br>• sillafu'r rhan fwyaf o eiriau syml yn gywir<br>• terfyniadau rhai berfau'n gywir ar adegau<br>• dangos ymwybyddiaeth o ffurf | **7-10** |
| **G** **8-13** | • trafod y testun gan gytuno neu anghytuno'n fyr | • peth ymgais i gyflwyno manylion<br>• peth dilyniant | • ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol<br>• atalnodi'n gywir ar adegau<br>• sillafu rhai geiriau syml yn gywir<br>• defnyddio terfyniadau rhai berfau syml yn gywir<br>• peth ymwybyddiaeth o ffurf | **4-6** |
| **U** **1-7** | • un neu ddau o bwyntiau'n unig | • cynnwys yn denau iawn | • adnoddau iaith cyfyngedig<br>• ychydig iawn o atalnodi cywir<br>• sillafu rhai geiriau syml yn gywir<br>• defnyddio rhai berfau syml<br>• rhai elfennau o'r ffurf | **1-3** |